CWPAN Y BYD: CHWARAE TEG?
SYNIADAU TRAWSGWRICWLAIDD

Mae pêl-droed a Chwpan y Byd yn cynnig llawer o wahanol gyfleoedd i ddefnyddio dull dinasyddiaeth fyd-eang i hybu dysgu go iawn ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc i ddysgu a meddwl yn feirniadol am faterion megis tegwch ac anghydraddoldeb. Dyma ychydig o syniadau addysgu ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth.

Noder: Roedd yr holl ddolenni gwe a ddarperir isod yn gywir adeg eu cyhoeddi.

Mathemateg

- Archwiliwch faneri'r gwahanol wledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. *Pa batrymau a welwch chi? Pa siapiau 2-D a pha fathau o onglau a welwch chi? Pa faneri sydd â llinellau cymesuredd?*
- Cymharwch y pellteroedd (neu wahaniaethau mewn parthau amser) rhwng prifddinasoedd gwahanol wledydd Cwpan y Byd a Moscow (prifddinas Rwsia, y wlad sy'n cynnal y bencampwriaeth). *Pa wlad sydd bellaf? Pa wlad sydd â'r gwahaniaeth amser mwyaf?*
- Ymchwiliwch i ddata i gymharu cyflog ac amodau gwaith timau mewn gwahanol gynghreiriau cenedlaethol ledled y byd. Mae ambell bêl-droediwr proffesiynol gwrywaidd sydd ar frig y gêm yn mwynhau amodau gwaith da iawn a chyflogau uchel. Mae'r pêl-droedwyr hyn yn chwarae'n bennaf i bum cynghrair mawr Ewrop (megis yr Uwch Gynghrair yn Lloegr). Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bêl-droedwyr proffesiynol, sy'n aml yn chwarae mewn rhannau o Ddwyrain Ewrop, Affrica a rhai gwledydd yn Ne a Chanol America, yn wynebu amodau gwaith gwael, yn cael cyflog isel ac yn cael eu cam-drin. Er enghraifft, mae ychydig o dan 2% o bêl-droedwyr yn ennill mwy na $720,000 UDA y flwyddyn, tra bod dros 45% yn ennill llai na $12,000 UDA.

  Gweler *Adroddiad Cyflogaeth Fyd-eang* FIFPro i gael rhai ffeithiau a ffigurau defnyddiol:

  www.fifpro.org/news/first-global-employment-report-unveiled/en/
- Fel arall, archwiliwch anghydraddoldeb yn yr Uwch Gynghrair yn Lloegr (neu gynghrair genedlaethol arall yn Ewrop). Casglwch, dadansoddwch a chyflwynwch ddata i ateb cwestiynau, megis:
  - *Pa glybiau sy'n gwario'r arian mwyaf ar gyflogau?*
  - *Pa glybiau sy'n gwneud yr arian mwyaf?*
  - *Pa bêl-droediwr sy'n cael ei dalu fwyaf?*

  Gweler *Adolygiad Blynyddol Cyllid Pêl-droed* Deloitte i gael rhai ffeithiau a ffigurau defnyddiol

  https://www2.deloitte.com/uk/en/pages/sports-business-group/articles/annual-review-of-football-finance.html

Cymraeg

- Ysgrifennwch stori am bêl-droed a ddefnyddir yng Nghwpan y Byd 2018. Meddyliwch am ba le yn y byd y gwnaed y bêl, sut y cafodd ei chynhyrchu a'r bobl a oedd yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Disgrifiwch amodau gwaith ac elw'r gwahanol bobl dan sylw, o'r ffatri lle cafodd ei

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

chynhyrchu i'r defnyddiwr ar ddiwedd y gadwyn. Yn aml, effeithir yn fwy negyddol ar fenywod a phlant na dynion o fod ar waelod y gadwyn gyflenwi, er enghraifft trwy effeithio ar faint o amser sydd ar gael ar gyfer gofal plant neu i fynd i'r ysgol.

- Gwyliwch glip fideo byr (*Playing Fair: The Story of Fair Trade Footballs*) o'r Sefydliad Masnach Deg i ddarganfod sut y caiff y bêl-droed ei gwneud ym Mhacistan, a'r effaith y mae Masnach Deg wedi'i chael ar fywydau rhai pobl sy'n ymwneud â'i chynhyrchu: https://schools.fairtrade.org.uk/teaching-resources/football/ *(8 mun, 5 eiliad)*
- Gweler *Fair's fair – Life and rights in the global sports industry* gan Playfair, 2012 i ddysgu mwy am rai o'r bobl sy'n creu'r nwyddau hyn mewn gwledydd tlotach, yn aml yn gweithio heb fawr ddim hawliau, ac am gyflogau isel iawn:

  www.playfair2012.org.uk/wp-content/uploads/2011/09/TUC_Fairs-fair_booklet.pdf

- Bu llawer o ddadlau ynghylch llwyfannu Cwpan y Byd 2018 yn Rwsia, gyda rhai pobl yn galw ar wledydd a thimau i foicotio'r digwyddiad. Trefnwch ddadl ar y pwnc llosg hwn: *A ddylai Lloegr gymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018?*

  I gael arweiniad, strategaethau ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu ymarferol ar gyfer rheoli materion dadleuol yn yr ystafell ddosbarth, gweler canllaw Oxfam, *Teaching Controversial Issues*, a ddiweddarwyd yn ddiweddar:

  www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues

Gwyddoniaeth

- Dyluniwch bryd o fwyd iach a chytbwys ar gyfer chwaraewr pêl-droed. Yna, ewch ati i ymchwilio i ddiet traddodiadol mewn gwahanol wledydd, ac archwiliwch egni a maeth y prydau arferol hyn.
- Gweler cyhoeddiad Oxfam, *Our Food, Our World* i gael ffotograffau a gwybodaeth am fwydydd gwahanol wledydd: www.oxfam.org.uk/education/resources/our-food-our-world
- Ymchwiliwch i ddefnydd ac effaith amgylcheddol plastig mewn digwyddiad chwaraeon mawr, megis Cwpan y Byd. Cymharwch blastigion gwahanol yn ôl eu priodweddau, eu defnydd a'u hôl troed amgylcheddol. Dyluniwch a chrëwch gynnyrch gan ddefnyddio plastig gwastraff. Gweler *Her Plastigion* Practical Action am ragor o syniadau: practicalaction.org/plastics-challenge

Hanes

- Mae dros 80 mlynedd ers i rai o'r ffoaduriaid cyntaf, a chwaraeodd bêl-droed proffesiynol yn y wlad hon, gyrraedd y DU. Ymchwiliwch i gyfraniad ffoaduriaid tuag at bêl-droed ers hynny, yn y DU ac mewn lleoedd eraill, yn ogystal â'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'u gorfodi i adael eu gwledydd brodorol. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys:
  - Fabrice Muamba – pêl-droediwr proffesiynol o Weriniaeth Ddemocrataidd Congo, a chwaraeodd i Arsenal, Birmingham City a Bolton Wanderers.
  - Victor Moses – yn wreiddiol o Nigeria, lladdwyd ei rieni pan oedd yn 11 oed. Bu i Victor ffoi o'r wlad ac mae bellach yn chwarae i Gaer.
  - Shefki Kuqi – ymosodwr o Kosovo, a chwaraeodd i wahanol dimau yn Lloegr, gan gynnwys Sheffield Wednesday a Newcastle.
  - Nadia Nadim – chwaraewr Manchester City a meddyg dan hyfforddiant, a ffodd o'i gwlad frodorol, Affganistan, gyda'i theulu, yn 12 oed, ar ôl i'w thad gael ei ddienyddio.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Ymchwiliwch i hanes menywod yn y byd pêl-droed a chymharu hyn â hanes pêl-droed dynion. Er enghraifft, tua diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd pêl-droed menywod yn boblogaidd iawn, ac roedd eu gemau yn aml yn denu torfeydd mwy o faint na rhai'r dynion (gweler y sesiwn Saesneg am ragor o fanylion). Neu, archwiliwch sut y mae agweddau eraill ar gydraddoldeb (neu anghydraddoldeb) rhwng y rhywiau wedi newid dros amser, megis menywod yn cael yr hawl i bleidleisio mewn gwahanol wledydd ledled y byd.

Daearyddiaeth/astudiaethau cymdeithasol

- Ewch ati i ymchwilio i'r nodweddion tebyg, y gwahaniaethau a'r cysylltiadau daearyddol eraill rhwng y gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. Gallai'r dysgwyr ganolbwyntio ar agweddau penodol ar ddaearyddiaeth ffisegol a/neu ddynol. Neu, gallai parau o ddysgwyr ddewis gwahanol wledydd i ymchwilio iddynt, cyn dod yn ôl fel dosbarth cyfan i gymharu'r gwledydd hyn.
- Gallai dysgwyr mwy abl ddefnyddio gwefan Gapminder (www.gapminder.org) i ymchwilio i sut y mae dangosyddion "datblygu" eraill wedi newid dros amser, a sut y mae'r dangosyddion hyn yn amrywio mewn gwahanol wledydd ac yn rhanbarthau'r byd. *Pa enghreifftiau eraill sy'n bodoli o anghydraddoldeb rhwng gwledydd?*
- Ewch ati i ddarganfod ble yn y byd y mae'r bêl-droed yn cael ei chreu. Efallai mai dyma'r bêl-droed a ddefnyddir yn eich ysgol. Ewch ati i leoli'r gwledydd ar fap y byd. Trafodwch pwy sy'n ymwneud â chynhyrchu a gwerthu'r bêl-droed. Lluniwch ddiagram, ar ffurf cadwyn, o'r bobl sy'n rhan o'r broses, o'r gweithiwr ffatri i'r defnyddiwr yn y DU. Ewch ati i ymchwilio i amodau gwaith ac elw'r bobl sy'n rhan o'r broses gynhyrchu, a'u cymharu â rhai pobl eraill ar hyd y gadwyn.
    - Gwyliwch glip fideo byr (*Playing fair: The story of Fairtrade footballs*) o'r Sefydliad Masnach Deg i ddarganfod sut y mae'r bêl-droed yn cael ei gwneud ym Mhacistan, a'r effaith y mae Masnach Deg wedi'i chael ar fywydau rhai pobl sy'n ymwneud â'i chynhyrchu:

      https://schools.fairtrade.org.uk/teaching-resources/football/ (*8 munud, 5 eiliad*).
    - Gweler *Fair's fair – Life and rights in the global sports industry*, Playfair, 2012 i gael gwybod mwy am rai o'r bobl sy'n gwneud y nwyddau hyn mewn gwledydd tlotach, yn aml yn gweithio heb fawr ddim hawliau, ac am gyflogau isel iawn:

      www.playfair2012.org.uk/wp-content/uploads/2011/09/TUC_Fairs-fair_booklet.pdf

Addysg Gorfforol

- Ymchwiliwch i sut y mae FIFA yn ceisio gwneud Cwpan y Byd yn fwy cynhwysol. Gallai'r dysgwyr ymchwilio i sut y mae FIFA yn pennu safleoedd timau ar y rhestr detholion yn ogystal â phroses gymhwyso bresennol Cwpan y Byd (gweler y nodyn isod). Gallai'r dysgwyr fyfyrio ar ba mor "deg" yw'r prosesau hyn, a'u trafod, cyn meddwl am eu syniadau eu hunain. Mae gwneud Cwpan y Byd yn fwy cynhwysol yn heriol. Er enghraifft, er y byddai'n golygu bod gan dimau cryfach a gwannach o wahanol rannau o'r byd gyfle i gystadlu, gallai'r gwahaniaethu cadarnhaol – a allai fod ei angen i gefnogi hyn – arwain at gemau pencampwriaeth rhwng timau o alluoedd gwahanol iawn. Gallai hefyd arwain at rai o'r timau cryfach yn methu â chymhwyso, gan fod llai o leoedd ar gael, o bosibl, i dimau o gyfandiroedd cryfach.

  Nid yw'n hawdd datrys y materion hyn ac mae'n destun dadl go iawn. I gael arweiniad, strategaethau ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu ymarferol ar gyfer rheoli materion

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

dadleuol yn yr ystafell ddosbarth, gweler canllaw Oxfam, *Teaching Controversial Issues*, a ddiweddarwyd yn ddiweddar:

www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues

Noder:

Mae FIFA yn cyfrifo'r safleoedd trwy edrych ar gyfanswm nifer pwyntiau tîm dros y pedair blynedd diwethaf; gall timau ennill pwyntiau o'r gemau y maent yn eu chwarae gyda gwledydd eraill. Y mwyaf llwyddiannus yw tîm, y mwyaf o bwyntiau y mae'n eu hennill a'r uchaf yw ei safle. I gael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn pennu safleoedd, gweler: www.fifa.com/fifa-world-ranking/procedure/men.html

Cynhelir twrnameintiau cymhwyso Cwpan y Byd ym mhob cyfandir (Affrica, Asia, Gogledd America, De America, Ewrop ac Awstralasia). Ar gyfer pob un o'r twrnameintiau hyn, mae FIFA yn penderfynu ymlaen llaw ar faint o leoedd cymhwyso a fydd ar gyfer pob cyfandir, yn seiliedig ar niferoedd a chryfder cymharol y timau sy'n cymryd rhan. Mae mwy o dimau o Ewrop yng Nghwpan y Byd gan fod FIFA yn dyrannu mwy o leoedd ar eu cyfer. Mae'r wlad sy'n cynnal Cwpan y Byd (sef Rwsia yn 2018) yn cymhwyso yn awtomatig. Am ragor o fanylion, gweler: www.fifa.com/worldcup/preliminaries/index.html

- Ymchwiliwch i'r ffyrdd eraill y mae pêl-droed yn cael ei gwneud yn fwy cynhwysol. Ewch ati i ddysgu am Gwpan Anabledd y Gymdeithas Bêl-droed, sy'n cynnwys nifer o wahanol gystadlaethau partner nam-benodol (megis Cwpan y Gadair Bŵer, Cwpan Parlys yr Ymennydd, Cwpan i rai sydd wedi colli rhan o'u corff, Cwpan y Deillion a Chwpan y Byddariaid).
    - Gweler: www.thefa.com/get-involved/player/disability/disability-cup-overview
- Ewch i ddysgu am y Pwyllgor Chwarae Teg Rhyngwladol, sy'n bodoli i hyrwyddo chwarae teg ledled y byd. Bob blwyddyn, mae'r pwyllgor yn dyfarnu gwobrau Chwarae Teg i bobl sydd wedi bod yn llysgenhadon chwarae teg ardderchog. Ceir Gwobr Chwarae Teg FIFA hefyd, sy'n cael ei chyflwyno bob blwyddyn i unigolion, timau, cefnogwyr, gwylwyr neu gymdeithasau pêl-droed sydd wedi ymddwyn yn ysbryd chwarae teg a thosturi. Gofynnwch i'r dysgwyr enwebu cyfoedion sydd, yn eu barn nhw, wedi hyrwyddo chwarae teg, boed hynny yn y maes chwaraeon neu mewn gweithgareddau eraill. Trefnwch seremoni wobrwyo Chwarae Teg bob blwyddyn neu bob tymor.
    - www.fairplayinternational.org/
    - www.fifa.com/sustainability/fair-play.html

Celf a Dylunio

- Ymchwiliwch i logos rhai o'r cwmnïau dillad chwaraeon sy'n noddi'r chwaraewyr pêl-droed gorau. Meddyliwch am yr ystyr y tu ôl i'r gwahanol ddyluniadau a'r lliwiau a ddefnyddir. Dyluniwch eich logo eich hun ar gyfer cwmni dillad chwaraeon Masnach Deg, y darperir yr holl ddeunyddiau'n gyfrifol a thelir y bobl sy'n gwneud y dillad yn deg.
- Ymchwiliwch i hanes baneri'r gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. Dyluniwch faner ar gyfer cenedl ddychmygol lle mae tegwch a chyfiawnder i bawb, ac mae gan bawb yr hyn sydd ei angen arnynt i fyw bywyd hapus ac iach.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cerddoriaeth

- Archwiliwch gerddoriaeth a geiriau gwahanol anthemau cenedlaethol. Cyfansoddwch eich anthem eich hun (y dôn a/neu'r geiriau) ar gyfer cenedl ddychmygol, lle mae tegwch a chyfiawnder i bawb, ac mae gan bawb yr hyn sydd ei angen arnynt i fyw bywyd hapus ac iach.
- Ymchwiliwch i rôl cerddoriaeth wrth fynd ati i greu newid cymdeithasol, er enghraifft cydraddoldeb rhwng y rhywiau.
    - Gweler cyhoeddiad Oxfam *Raising Her Voice*: www.oxfam.org.uk/education/resources/raising-her-voice

Dylunio a Thechnoleg

- Ystyriwch y gwastraff a gynhyrchir gan y miliynau o wylwyr yn ystod digwyddiad chwaraeon megis Cwpan y Byd. Archwiliwch syniadau ar gyfer ceisio lleihau faint o wastraff a gynhyrchir yn ystod Cwpan y Byd. Meddyliwch am sut y rheolir gwastraff yn eich ysgol a nodwch gamau y gellid eu cymryd i leihau'r ôl troed gwastraff hwn.
- Weithiau y mae angen i chi fod yn ddyfeisgar wrth ddod o hyd i rywbeth i'w ddefnyddio i chwarae pêl-droed. Nid oes gan nifer o blant ledled y byd fynediad at yr offer a'r cyfleusterau chwaraeon y mae eraill yn eu mwynhau. Defnyddiwch yr adnodd hwn o *Send a Cow* i wneud eich pêl-droed eich hun o fagiau plastig wedi'u hailgylchu:

  www.sendacow.org.uk/lessonsfromafrica/resources/plastic-bag-football

ABGI a Dinasyddiaeth

- Pêl-droed yw un o'r chwaraeon mwyaf poblogaidd ledled y byd. Cefnogwch y dysgwyr i ddarganfod y llu o ddiddordebau tebyg eraill a rannwn gyda phobl mewn gwledydd eraill, gan ddathlu ein gwahaniaethau ar yr un pryd. Defnyddiwch y clip fideo byr hwn gan Oxfam i ysgogi'r dysgwyr i fyfyrio a thrafod: www.youtube.com/watch?v=EJH054VFIQ4
    - Gweler adnodd Oxfam *Your Life, My Life* i gael clipiau fideo eraill a syniadau addysgu er mwyn annog dysgwyr i uniaethu â nodweddion tebyg a pharchu amrywiaeth: www.oxfam.org.uk/education/resources/your-life-my-life
- Myfyriwch ar ystyr cydraddoldeb. Ewch ati i gynnal ras wy a llwy annheg; rhowch wy a llwy i'r dosbarth cyfan, neu ran o'r dosbarth, ond rhowch lwy ddofn neu letwad i un neu fwy o'r dysgwyr gario'r wy. Trafodwch sut yr oedd y dysgwyr yn teimlo ar ôl y ras. Neu, rhannwch gacen, sticeri neu gownteri yn anghyfartal ymysg grŵp o ddysgwyr, a thrafodwch sut y mae'r rhai sydd â mwy neu lai o gacen, sticeri neu gownteri yn teimlo. Cysylltwch hyn ag enghreifftiau go iawn o anghydraddoldeb.

Cyfrifiadura

- Dewiswch, defnyddiwch a chyfunwch amrywiaeth o feddalwedd i ddadansoddi a chyflwyno data o bencampwriaethau Cwpan y Byd y gorffennol. *Pa wledydd sydd wedi ymddangos/ennill fwyaf yng Nghwpan y Byd? Yn eich barn chi, beth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar siawns gwlad o gymryd rhan yng Nghwpan y Byd, neu ei hennill?* www.fifa.com/fifa-tournaments/statistics-and-records/worldcup/teams/index.html

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Codwch ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb trwy ddylunio ffeithluniau i gynrychioli rhywfaint o'r data a ddarperir yn yr adnodd hwn. Neu, crëwch dudalen we, blog neu sioe sleidiau.
- Ymchwiliwch i pam y mae llai o fenywod mewn gyrfaoedd technoleg na dynion. Datgelodd astudiaeth yn y DU mai dim ond 27% o fenywod fyddai'n ystyried gyrfa mewn technoleg, o gymharu â 62% o ddynion.[1] Casglwch, dadansoddwch a chyflwynwch ddata i weld a oes gwahaniaeth rhwng bechgyn a merched yn eich ysgol yn hyn o beth. Trafodwch resymau posibl dros yr anghydraddoldeb hwn rhwng y rhywiau, a'r hyn y gellid ei wneud i annog merched i ymgymryd â thechnoleg, yn eich ysgol neu'n ehangach.

Leithoedd tramor / leithoedd tramor modern

- Dysgwch sut i ddweud "Croeso" yn rhai o ieithoedd y gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. Crëwch boster "Croeso" i arddangos y geiriau hyn wrth fynedfa eich ystafell ddosbarth neu ysgol.
- Archwiliwch ddarllediadau cyfryngau Cwpan y Byd 2018 gan rai o'r gwahanol wledydd sy'n cymryd rhan, mewn ieithoedd megis Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg a Phortiwgaleg. *Ar y cyfan,* a *yw'r sylw'n gadarnhaol neu'n negyddol? Pa fathau o faterion sy'n cael sylw?* Cymharwch sylw'r cyfryngau mewn gwahanol wledydd. *Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran y sylw? Beth a allai'r rhesymau fod dros y gwahaniaethau?*

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at Gwpan y Byd drwyddo draw, defnydd golygyddol yn unig yw hwn ac nid oes cysylltiad mewn unrhyw ffordd rhwng FIFA a'r adnodd hwn.

[1] www.pwc.co.uk/who-we-are/women-in-technology/tech-she-can-charter.html